

BRO PEDR




Ysgol Bro Pedr

A fo ben bid bont



CRYNODEB CWRICWLWM
BRO PEDR

2026-2027



CRYNODEB CWRICWLWM BRO PEDR EIN GWELEDIGAETH

Cenhadaeth Ysgol Bro Pedr, yn ysbryd yr arwyddair 'A fo ben bid bont', yw darparu addysg gyfoethog ar gyfer yr holl ddisgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn gwireddu eu llawn potensial. I gyflawni hyn, bydd Ysgol Bro Pedr yn ysgol gyffrous a deinamig sy'n medru addasu'n gyflym i heriau addysgu'r unfed ganrif ar hugain. Bydd hon yn ysgol sy'n datblygu strategaethau ac addysgeg ar sail ymchwil, yn ysgol sydd yn barod i fentro ac arbrofi wrth dorri tir newydd fel Ysgol 3-19 ac fel sefydliad sy'n dysgu gydol oes.

Cred yr Ysgol bod pob disgybl yn unigryw a bod pob plentyn yn cyftri. Dylai'r ysgol felly fod yn bont sydd yn helpu disgyblion i oresgyn unrhyw anawsterau ac sy'n grymuso ein dysgwyr i ddod yn ddinasyddion sy'n barod i ddysgu trwy eu bywydau. Ysgol ag iddi ethos cynhwysol, person-ganolog yw Ysgol Bro Pedr sy'n paratoi pob dysgwr i gofleidio heriau'r dyfodol drwy ddarparu ysgol hapus iddynt ddatblygu eu medrau i'r eithaf ac sy'n cadw anghenion ac uchelgaïs pob disgybl wrth wraidd yr hyn a gynigwn o fewn ein cwricwlwm.

Fel Ysgol 3-19, rydym yn bont gydol oes sydd â chyfrifoldeb i sicrhau bod disgyblion sydd yn ein gadael ar ddiwedd Blwyddyn 11 neu 13 yn gadael yr ysgol yn unigolion hyderus, gwybodus, creadigol ac egwyddorol. I gyflawni hyn, bydd Ysgol Bro Pedr yn darparu cwricwlwm a phrofiadau dysgu cydlynus sy'n pontio'r cyfnodau oedran ar draws yr ystod 3-19.

Rydym yn bont sydd yn meithrin dysgwyr iach, annibynnol ac amlieithog sy'n ymhyfrydu yn eu hysgol a'u cymuned. Bydd dysgwyr 3-19 Ysgol Bro Pedr yn ddysgwyr sy'n dangos parch at holl rhanddeiliaid yr ysgol ac yn unigolion uchelgeisiol sy'n gosod safonau uchel i'w hunain yn barhaus. Bydd yma ymdeimlad cryf o gydweithio fel un gymuned ac o ganlyniad bydd disgyblion, staff, rhieni a gofawyr, llywodraethwyr a holl rhanddeiliaid yr ysgol yn aelodau balch o gymuned Ysgol Bro Pedr. Bydd ein disgyblion yn gwerthfawrogi a pharchu eu cymuned leol cyn eu bod yn lledu euhadenydd a mentro i'r byd mawr. O ddarparu profiadau cyfoethog a chreu ymdeimlad o falchder yn eu cymuned leol, gobaith yr ysgol yw y bydd nifer o'r disgyblion yn dychwelyd i gyfoethogi eu cymuned leol gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.



CRYNODEB CWRICWLWM BRO PEDR Y DAITH I WIREDDU EIN CWRICWLWM

Fel ysgol arloesol, rydym wedi bod yn gwrando ar lais rhanddeiliaid wrth baratoi at gyflwyno'r cwriclewm newydd. Mae ein cwriclewm yn perthyn i'r dysgwyr, rhieni, staff, cymuned ehangach yr ysgol ayb. Yn benodol, mae llais y disgybl wedi bod yn allweddol yn y broses dylunio ac rydym wedi bod yn cydweithio â'r dysgwyr er mwyn paratoi cwriclewm cyffrous, heriol a pherthnasol.

Rydym wedi bod yn arwain a hyfforddi staff er mwyn sicrhau hyder ac arloesedd wrth gynllunio cwriclewm sy'n hyrwyddo'r pedwar diben a bydd yn parhau i gynnal hyfforddiant ysgol gyfan ar y 12 egwyddor addysgeg er mwyn sicrhau darpariaeth sydd yn unol ag egwyddorion Cwriclewm i Gymru. Mae ein staff wedi manteisio ar rwydweithiau a hyfforddiant sirol a chenedlaethol.

Mae UDA wedi bod yn monitro a gwerthuso'r cynnydd a wnaed wrth gyflwyno Cwriclewm i Gymru a chynllunio'r camau nesaf. Trwy gydol y broses rydym wedi bod yn mapio cyfleoedd ysgol gyfan i wireddu egwyddorion y Pedwar Diben er mwyn gwerthuso a chynllunio ymlaen




HANFOD Y DYSGU Y 4 DIBEN

Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer ein cynllun cwriclewm ysgol gyfan. Nod ein hysgol yw cefnogi ein dysgwyr i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

CRYNODEB CWRICWLWM BRO PEDR CWRICWLWM CYNHWYSOL

Rydym yn benderfynol o sicrhau cwriclewm cynhwysol sydd yn hygyrch i bob disgybl sydd yn ymateb i'r cod anghenion dysgu ychwanegol newydd. Bydd ein cwriclewm yn codi dyheadau pob dysgwr. Rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wireddu'r pedwar diben ac i symud ymlaen. Rydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY a sut y byddwn yn bodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.





Y DATGANIADAU O'R HYN SY'N BWYSIG

Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd a phrofiadau i ddatblygu'r cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau allweddol fel y disgrifir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

- Celfyddydau Mynegiannol
- Dyniaethau
- Mathemateg a Rhifedd
- Iechyd a Lles
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Yn y sector uwchradd bydd holl bynciau'r cwricwlwm presennol wedi'u cynnwys yn y chwe maes uchod tra hefyd yn cynnwys pynciau newydd megis; dawn, addysg ariannol, drama, lles. Yn y sector lau, caiff dysgwyr eu haddysgu trwy themâu trawsgwricwlaidd ac mae'r wybodaeth a'r sgiliau o'r chwe MDPH yn cael eu plethu mewn i'r testunau.

Gweler fideo gan ein disgyblion ar wefan yr ysgol sy'n cyflwyno cwricwlwm Bro Pedr.

CRYNODEB CWRICWLWM BRO PEDR

Bydd ein cwricwlwm yn cynnwys cyfrifoldebau gorfodol trawsgwricwlaidd sef; llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn a'u hymestyn a'u cymhwyso ar draws pob Maes. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i wneud y canlynol;

- datblygu sgiliau gwrandio, darllen siarad ac ysgrifennu
- gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn
- bod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd.




Crefydd Gwerthoedd a Moeseg (CGM) – Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 a 16 oed. Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn o'r gwersi yma.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRH) – Mae ein cwricwlwm ysgol yn cofleidio'r arweiniad yn y Cod ACRh. Bydd gan ein darpariaeth ACRh rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r 4 diben fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan. Sylfaen ACRh yw helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar gyd ymddiriedaeth a pharch. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.

Hawliau Plant-CCUHP/CCUHPA– Mae ein cwricwlwm yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddau gonfensiwn (CCUHP a'r CCUHPA) ymhlith y rhai sy'n darparu dysgu ac addysgu mewn perthynas â'n cwricwlwm.

CWRE– Profiadau sy'n gysylltiedig â gyrfaedd a gwaith – Bydd ein cwricwlwm yn ymgorffori gyrfaedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith ar gyfer ein holl ddysgwyr.

Bydd ein cwricwlwm yn rhoi dewis o ddysgu i'r dysgwyr hynny sy'n symud o flwyddyn 9 i flwyddyn 10 ym mhob Maes, yn unol â gofynion canllawiau'r CIG Bydd pob disgybl 3-16 yn derbyn gwersi Cymraeg a bydd pob disgybl yn derbyn gwersi Saesneg o flwyddyn 3 ymlaen.



CRYNODEB CWRICWLWM BRO PEDR PRYNHAWN LLES

Clustnodwyd amser ar yr amserlen ar gyfer prynhawn lles, lle caiff dysgwyr eu hannog i gymryd mantais o brofiadau newydd, dilyn diddordebau gwahanol a dysgu sgiliau newydd. Amserlen dymhorol yw hyn lle mae dysgwyr yn dewis eu llwybr cwricwlaidd personol ar brynghawn dydd Gwener. Mae enghreifftiau llwyddiannus o glybiau yn cynnwys: Cymorth Cyntaf, Clwb dadl, Creadigrwydd, Nofio, Dartiau, meddylgarwch, band roc ysgol, garddio a llawer mwy. Edrychwn ymlaen at weld ein dysgwyr yn mwynhau profi'r clybiau newydd sy'n cael eu cynnig eleni (pob un yn dilyn egwyddorion Cwricwlwm i Gymru) gan sicrhau bod eu lleisiau yn cyfrannu at y gweithgareddau sy'n cael eu darparu.






DYSGU, DILYNIANT AC ASESU

Bydd ein cwricwlwm yn cefnogi dysgu trwy ddylunio cyfleoedd dysgu sy'n tynnu ar yr egwyddorion addysgeg. Mae ein cwricwlwm, a ategir gan addysgu a dysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon. Dros amser bydd ein dysgwyr yn datblygu a gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddeall beth mae'n ei olygu i wneud cynnydd mewn maes neu ddisgyblaeth benodol a sut y dylai dysgwyr ddyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluoedd a'u priodoleddau a'u tueddiadau, ac mae'n cael ei lywio gan y cod cynnydd.

Bydd ein trefniadau asesu yn gwreiddio fel rhan annatod o'r ymarfer dydd i ddydd sy'n addas i bob dysgwr. Fel rhan o'r Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y CiG) 2022, byddwn yn sicrhau ein bod yn:

- Gwneud trefniadau ar gyfer asesiad parhaus o bob disgybl a phlentyn drwy gydol y flwyddyn ysgol gan ymarferydd;
- Gwneud trefniadau ar gyfer asesiadau wrth dderbyn disgyblion, a chynnal yr asesiadau hynny i bob plentyn/disgybl ar adegau penodol;
- Gweithio o fewn yr ysgol a chydag ysgolion eraill i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a chynllunio ar gyfer pontio dysgwyr rhwng ysgolion;
- Darparu gwybodaeth i rieni a gofawyr fel eu bod yn deall cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud.





CRYNODEB CWRICWLWM BRO PEDR GWREIDDIO'R 12 EGWYDDOR ADDYSGEG I GYFLAWNI'R WELEDIGAETH

Er mwyn rhagori yn addysgeg, bydd ein hathrawon:

- Yn canolbwyntio'n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm
- Yn rhoi her i'r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrech'u'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel ond o fewn eu cyrraedd
- Yn golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol
- Yn galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol.
- Yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb
- Yn creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu
- Yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
- Yn ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad
- Yn atgyfnerthu'r Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn rheolaidd ac yn cynnig cyfleoedd i'w hymarfer
- Yn cymell plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain.
- Yn hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol.
- Yn hybu cydweithio

CRYNODEB CWRICWLWM BRO PEDR ADOLYGU A MIREINIO

Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i allbynnau ymholi proffesiynol, anghenion cyfnewidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwenir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

Mae'r Cwricwlwm Newydd wedi bod yn weithredol yn y campws cynradd ers Medi 2022 ac yn y campws uwchradd ers Medi 2023.

Pennaeth:

Cadeirydd y Corff Llywodraethol: Mrs Fiona Drury
Dyddiad Adolygu: Gorffennaf 2027

